Centre for Alternative Technology
Canolfan y Dechnoleg Amgen

## SWYDD DDISGRIFIAD

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | **COGYDD** |
| **Maes Cyfrifoldeb:** | Caffi CyDA |
| **Atebol i:** | Rheolwr Bwyd a Diod |
| **Cyfrifol am:** | Staff Arlwyo |
| **Math o Gontract:** | Parhaol |
| **Gradd Cyfrifoldeb:** | 4 |
| **Cyflog:** | £24,174.50 y flwyddyn pro rata |
| **Lleoliad:** | Fel rheol, ar safle’r cwmni yn Llwyngwern |
| **Oriau:** | Yn amrywio – 30 awr yr wythnos |
| **Diwrnodau Gwaith:** | Dros 7 diwrnod ar sail rota, gan gynnwys gyda’r nos a boreau cynnar. Efallai bydd angen gweithio sifftiau hollt, yn ddibynnol ar ofynion busnes. |
| **Dyddiad SDd:** | Ebrill 2024 |

## GWYBODAETH AM GANOLFAN Y DECHNOLEG AMGEN

Mae Canolfan y Dechnoleg Amgen (CyDA) a leolir ger Machynlleth yng Nghanolbarth Cymru, yn elusen amgylcheddol ryngwladol enwog, yn ganolfan eco sy’n arwain y byd, ac yn un o’r prif ddarparwyr addysg amgylcheddol ôl-raddedig yn y DU.

Mae CyDA yn darparu ysbrydoliaeth, addysg a hyfforddiant ar atebion i’r argyfyngau hinsawdd a bioamrywiaeth.

Mae’r prif weithgareddau’n cynnwys canolfan ymwelwyr lle gall pobl weld yr atebion hyn ar waith, cyrsiau byr a digwyddiadau wyneb yn wyneb, ar-lein a phreswyl, hyfforddiant galwedigaethol a graddau ôl-raddedig mewn ystod eang o bynciau’n ymwneud â chynaliadwyedd,

Mae ein tîm Prydain Di-garbon yn cyhoeddi gwaith ymchwil ac yn gweithio’n uniongyrchol gyda chynghorau, cymunedau a sefydliadau eraill i’w helpu i drawsnewid systemau economaidd, cymdeithasol a gwleidyddol cymhleth.

## TROSOLWG O'R RÔL

Nod y tîm Arlwyo yw darparu gwasanaeth o'r radd flaenaf ar gyfer ei holl gwsmeriaid, sy'n cynnwys ymwelwyr dydd, grwpiau ysgol, myfyrwyr, pobl ar gyrsiau, gwesteion Gwely a Brecwast a chynrychiolwyr cynadleddau a digwyddiadau wrth weithredu o fewn polisi masnachu moesegol a chynaliadwy. Mae'r meysydd gweithredu cyfredol yn cynnwys y prif gaffi a derbyniadau bwffe yn adeilad WISE.

Mae'r Cogydd yn gyfrifol am gynorthwyo gyda rhedeg a datblygu'r caffi a'r gwasanaethau arlwyo i safon uchel, effeithlon a phroffidiol, gan dderbyn adborth rhagorol gan gwsmeriaid, wrth weithredu o fewn polisïau amgylcheddol a chaffael CyDA. Mae'r rôl yn cyfuno dyletswyddau arlwyo cyffredinol, yn y gegin a blaen y tŷ, fel ei gilydd.

## PRIF GYFRIFOLDEBAU

- Cynorthwyo gyda goruchwylio a datblygu'r holl arlwyo
- Cynorthwyo gyda gosod safonau priodol
- Cynorthwyo gydag adolygu a datblygu ansawdd ac ystod y cynnyrch a'r gwasanaethau yn barhaol, cynyddu proffidioldeb a bodlonrwydd cwsmeriaid
- Gofalu bod gan y gwasanaethau arlwyo yn CyDA y nifer priodol o staff
- Cynnal a datblygu safonau uchel wrth baratoi bwyd, gweini a chyflwyno prydau a byrbrydau
- Bod yn greadigol a dyfeisgar wrth gyflwyno bwyd ar gyfer gwahanol gwsmeriaid a'u gwahanol ofynion arlwyo
- Sicrhau bod amrywiaeth dda o brydau a byrbrydau, sydd wedi'u paratoi yn ffres, ar gael i'w gweini ar gownteri'r bwyty
- Cynnal safonau uchel wrth goginio a gweini prydau i gwsmeriaid a grwpiau mawr
- Bod yn amryddawn a dyfeisgar wrth ddarparu ystod eang o wasanaethau arlwyo i gwsmeriaid, gan gynnwys darpariaeth hunanwasanaeth ar gyfer grwpiau, bwffes neu brydau wedi'u harchebu ymlaen llaw, a chymryd rhan mewn cynllunio bwydlenni
- Hwyluso gweithrediad llyfn ac effeithiol caffi CyDA o ddydd i ddydd, sy'n cynnwys:
    - gweini, cydgysylltu â chwsmeriaid a'r holl weithrediadau blaen y tŷ
    - defnyddio til, gwerthu dros y cownter a chyfrif yr arian
    - gweithrediadau'r gegin
    - cadw'r ardaloedd arlwyo yn ddiogel ac yn lân
    - cydymffurfio â HACCP a'r holl ofynion Iechyd Amgylcheddol
- Cynorthwyo gydag adnewyddu a chynnal lefelau priodol o stoc arlwyo
- Cynorthwyo gyda hyfforddi, datblygu ac ysgogi staff
- Sicrhau cydymffurfiad â pholisïau CyDA gan gynnwys Rheoli Gwastraff ac Iechyd a Diogelwch.
- Cynorthwyo gyda chynnal a chadw strwythur a chyfleusterau'r bwyty, fel rhan o dîm y bwyty
- Unrhyw ddyletswyddau priodol eraill fel y'u diffinnir gan y Rheolwr Arlwyo

| Y PERSON - COGYDD | | | |
|---|---|---|---|
| **Disgrifiad** | **Hanfodol** | **Dymunol** | **Dull Mesur** |
| *Addysg a Chymwysterau* | | | |
| a. Safon dda o addysg gyffredinol | * | | Ffurflen gais a thystiolaeth o gymwysterau |
| b. Cymwysterau/profiad proffesiynol perthnasol | | | |
| • Coginio / Arlwyo | * | | |
| • Rheoli Lletygarwch | | * | |
| • Gofal Cwsmer | | * | |
| • Rheoli Glanweithdra | * | | |
| *Gwybodaeth a Phrofiad* | | | Ffurflen gais a chyfweliad |
| c. Profiad o reoli lletygarwch | | * | |
| d. Profiad o oruchwylio staff | * | | |
| e. Profiad gofal cwsmer | | * | |
| f. Profiad o reoli cyllid | | * | |
| g. Profiad o goginio llysieuol | * | | |
| *Gallu a Sgiliau* | | | |
| h. Sgiliau rhyngbersonol ardderchog | * | | Ffurflen gais, cyfweliad a geirdaon |
| i. Sgiliau arwain a gwaith tîm ardderchog | | * | |
| j. Sgiliau cyfathrebu ac ysgogi ardderchog | * | | |
| k. Sgiliau trefnu a rheoli amser ardderchog | * | | |
| l. Gallu cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg – ar lafar ac yn ysgrifenedig | | * | |
| m. Gallu cyrraedd dedleins cyfyng pan fydd angen | * | | |
| n. Safon dda o rifedd a llythrennedd | * | | |
| o. Sgiliau TG ardderchog | | * | |
| *Nodweddion Personol* | | | |
| p. Gallu gweithio ar eich liwt eich hunan | * | | Ffurflen gais a chyfweliad |
| q. Dangos parch tuag at ystod amrywiol o bobl | * | | |
| r. Gallu gweithio'n effeithiol fel unigolyn, fel rhan o dîm ac mewn partneriaeth ag eraill | * | | |
| s. Gallu gweithio heb oruchwyliaeth a threfnu eich gwaith eich hun | * | | |
| t. Cariad a brwdfrydedd at fwyd a gwasanaeth – coginio, cyflwyno, gofal cwsmer | * | | |
| *Amgylchiadau* | | | |
| u. Gallu a pharodrwydd i weithio'n hyblyg | * | | Ffurflen gais a chyfweliad |
| v. Parodrwydd i deithio i gwrdd â gofynion yn ymwneud â'r swydd | | * | |
| w. Empathi tuag ethos a gwerthoedd craidd CyDA | * | | |
| x. Dealltwriaeth dda am faterion amgylcheddol | * | | |
| y. | | | |
| z. | | | |

Bydd o fantais i chi os gallwch ddweud yn eglur yn eich cais sut yr ydych yn cwrdd â'r meini prawf a nodir ar gyfer y swydd. Fe'ch anogir i roi enghreifftiau perthnasol a phenodol.